

DYFODOL SAETHU TARGEDAU YNG NGHYMURU

Hanes cryno saethu targedau yng
Nghymru a chynllun hyd at 2030.



FFEDERASIWN SAETHU
TARGEDAU CYMRU

WELSH TARGET
SHOOTING FEDERATION

Hanes cryno saethu targedau yng Nghymru



Sefydlu Cymdeithas
Reifflau Cymru

1904



Sefydlu
Cymdeithas
Saethu Targedau
Clai Cymru

1928



Sefydlu Cymdeithas
Targedau Maes
Gynnau Awyr
Cymru

1980



Corffori
Ffederasiwn
Saethu Targedau
Cymru

2008



Lansio gweledigaeth
a chynllun strategol
newydd ar gyfer
saethu targedau
yng Nghymru

2020

1896

Sefydlu'r clwb
saethu targedau
cyntaf yng
Nghymru yn
Nhon-du

1905

Sefydlu
Cymdeithas
Clybiau Reifflau
Bach Cymru

1966

Cynnwys saethu
am y tro cyntaf
yng Ngemau'r
Gymanwlad ac
Arglwydd John o
Abertawe yn ennill
medal aur i Gymru
yn adran Reifflau
Calibr Llawn

1993

Sefydlu Cymdeithas
Gynnau Awyr Cymru
a Chymdeithas
Reifflau Calibr
Bychan Cymru

2018

Perfformiad gorau
erioed tîm Saethu
Targedau Cymru yn
ennill 5 medal yng
Ngemau'r Gymanwlad
ar yr Arfordir Aur



Saethu targedau yng Nghymru heddiw yn ôl niferoedd

Saethwyr a lleoedd i saethu



3000

Mwy na 3,000 o bobl
yn saethu targedau yn
rheolaidd yng Nghymru



100+

Mwy na 100 o glybiau
a meysydd saethu
targedau yng Nghymru

Cymru yng Ngemau'r Gymanwlad



86

o Berfformiadau

31 Gwn saethu | 34 Reiff | 21 Pistol



36

o Fedalau

11 Gwn saethu | 21 Reiff | 4 Pistol

Beth all saethu targedau ei wneud i bobl Cymru?

Rhoi cyfleoedd i oedolion o bob oed fod yn egnïol.

50%

Mae 50% o holl oedolion Cymru eisiau cymryd rhan mewn mwy o chwaraeon a gweithgareddau corfforol.

55+

Ar ôl 55 oed, mae mwy na hanner poblogaeth Cymru yn cymryd rhan mewn chwaraeon neu weithgaredd corfforol lai nag unwaith yr wythnos, gan godi i 86% o bobl dros 75 oed.

62%

Mae 62% o oedolion â salwch ac anableddau hirsefydlog yn cymryd rhan lai nag unwaith yr wythnos.

35%

Dywedodd 35% o fyfyrwyr y bydden nhw'n cymryd rhan mewn mwy o weithgareddau chwaraeon pe bai mwy o chwaraeon addas ar eu cyfer.

80%


Dywedodd 80% o fyfyrwyr eu bod yn hyderus i roi cynnig ar weithgareddau newydd.

96%

Dywedodd 96% o fyfyrwyr Cymru y bydden nhw'n hoffi cymryd rhan mewn mwy o weithgareddau chwaraeon.

Rhoi cyfleoedd chwaraeon newydd i fyfyrwyr ysgol Cymru.

**“Mae WTSF yn
ymrwymedig i
sicrhau bod cyfle
cyfartal i holl bobl
Cymru roi cynnig ar
saethau targedau,
cymryd rhan ynddo a
chystadlu yn y gamp.”**



Pwy yw aelodau WTFSF?

Mae Ffederasiwn Saethu Targedau Cymru (WTFSF) yn cynrychioli pum cymdeithas saethu targedau ar lefel genedlaethol ar gyfer llywodraethu, ariannu a chystadlaethau rhyngwladol. Dyma'r pum cymdeithas sy'n aelodau: Cymdeithas Saethu Targedau Clai Cymru, Cymdeithas Gynnau Awyr Cymru, Cymdeithas Reifflau Cymru, Cymdeithas Reifflau Calibr Bychan Cymru a Chymdeithas Targedau Maes Gynnau Awyr Cymru.

Mae WTFSF yn cynrychioli buddiannau'r aelod-gymdeithasau a'u haelodau yn Chwaraeon Cymru, Tîm Cymru, Llywodraeth Cymru, British Shooting a chyrff eraill. Mae WTFSF yn gweithio tuag at rwydwaith saethu targedau ffyniannus yng Nghymru, gan hybu cyfleusterau a digwyddiadau saethu targedau a chymryd rhan yn y gamp. Mae WTFSF hefyd yn dethol ac yn cefnogi athletwyr o Gymru i gystadlu ar lwyfan byd-eang yng Ngemau'r Gymanwlad a digwyddiadau mawr eraill.



FFEDERASIWN SAETHU
TARGEDAU CYMRU
WELSH TARGET
SHOOTING FEDERATION


Lle mae WTSF wedi'i leoli?



Y Ganolfan Chwaraeon Genedlaethol
yng Ngerddi Sophia, Caerdydd.

Mae swyddfeydd WTSF yn rhan o Ganolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru. Mae'r adeilad hefyd yn gartref i faes saethu 10m Gynnau Awyr WTSF, a maes saethu 50m reifflau WTSF ar gyfer y goreuon. Gyda'i gilydd, mae'r cyfleusterau hyn yn rhan o ganolfan ragoriaeth saethu targedau Cymru, ac mae manteision eraill yn deillio o'r trefniant hwn, sef costau rhedeg isel a chysylltiadau'r WTSF â Chwaraeon Cymru a sefydliadau chwaraeon eraill Cymru.





Ein Gweledigaeth,
Ein Cenhadaeth a'n
Hamcanion.

Beth yw'r weledigaeth ar gyfer saethu targedau yng Nghymru?

Camp sy'n ffynnu gyda thirwedd gefnogol o'r cyswllt cyntaf i berfformiad a thu hwnt.



Nodau

- Hybu twf o flwyddyn i flwyddyn yn y nifer sy'n cymryd rhan mewn saethu targedau yng Nghymru.
- Hybu trefniadau llywodraethu da ac arwain drwy esiampl.
- Bod yn eiriolwr dros gyfleusterau saethu targedau o ansawdd.
- Hybu cyfleoedd datblygu ar gyfer pob rôl a lefel.
- Cynnal safle Cymru fel gwlad saethu targedau fwyaf llwyddiannus y Gymanwlad yn ôl poblogaeth.
- Cynyddu nifer yr athletwyr saethu targedau o Gymru sy'n gallu cynrychioli Prydain Fawr.



Amcanion

- Mapio rhwydwaith saethu targedau Cymru erbyn 2021 a gwerthuso effaith mentrau yn flynyddol.
- Rhoi'r Cynllun Gwella Trefniadau Llywodraethu ar waith erbyn 2021.
- Darparu cyfleoedd i bob hyfforddwr saethu targedau gweithredol o Gymru fynychu un digwyddiad datblygiad proffesiynol parhaus y flwyddyn erbyn 2021.
- Creu un neu fwy o bartneriaethau strategol o fewn y sectorau addysg, iechyd neu chwaraeon yng Nghymru erbyn 2021.
- 2500 o blant iau Cymru i roi cynnig ar saethu targedau erbyn 2022.
- Un saethwr targedau o Gymru o bob disgyblaeth gyda'r gallu i gyrraedd y 10 Uchaf yng nghystadleuaeth iau Cwpan y Byd erbyn 2026.
- Y nifer fwyaf o fedalau saethu targedau yng Ngemau'r Gymanwlad yn ôl poblogaeth ac o leiaf un fedal o bob disgyblaeth yng Ngemau 2026.
- Cynrychiolaeth Cymru yn 10% ar raglen Safon Byd British Shooting erbyn 2028.

Sut y datblygwyd y cynllun strategol?



Dechreuwyd gydag arolwg ar-lein yn 2017 i gasglu barn ar:

Glybiau, sesiynau blasu ac amlygrwydd cyhoeddus

Hyfforddiant, cyfleusterau, carfanau

Cystadlaethau cenedlaethol a rhwngwladol, cymorth ariannol a chymorth arall

Llwybrau, datblygiad a gwirfoddoli

Strwythurau, cysylltiadau rhwng cymdeithasau a digwyddiadau



Mireiniwyd gan arweiniad a chyngor gan arbenigwyr sector yn 2018 a 2019



Cadarnhawyd gan holl aelod-gymdeithasau WTSF yn 2019 a 2020



Parhau â digwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid yn 2018



Ystyried y newid yn nhirwedd chwaraeon Cymru a'r modelau cyllido sy'n adlewyrchu'r manteision y mae chwaraeon yn eu cynnig i gymdeithas



**“Ymddiriedaeth.
Twf.
Cefnogaeth.
Disgyblaeth.”**



Beth yw ein gwerthoedd? Sut mae WTSF yn cyflawni ei waith?

	Disgrifiad	Sut mae hynny'n swnio?	Sut deimlad yw hynny?
 Ymddiriedaeth	Rydych yn cael y rhyddid i wneud eich swydd hyd eithaf eich gallu ac yn credu bod eraill yn gwneud eu gorau i gyrraedd y nodau a rennir.	"Daliwch ati gyda'r gwaith da!" "Rwy'n gwybod eich bod chi'n gallu gwneud y swydd." "Diolch i chi am eich cyfraniadau i'r sefydliad."	Mae gen i'r rhyddid i wneud fy swydd hyd eithaf fy ngallu. Rwy'n gwybod bod fy nghydweithiwr yn ddibynadwy ac rydym i gyd yn gweithio tuag at y nodau a rennir.
 Cefnogaeth	Rydych yn fodlon helpu eraill â beirniadaeth adeiladol, ac yn croesawu sylwadau am eich gwaith.	"Gadewch i mi wybod os ydych chi am i mi gael cip ar y gwaith." "Allwch chi roi sylwadau ar hyn i mi?" "Beth yw eich barn chi am hyn?"	Rwy'n gwybod fy mod yn gallu gofyn am help heb fod ofni cael fy marnu neu ddioddef rhagfarn yn y dyfodol. Byddaf yn helpu cydweithwyr pan fydd angen help arnyn nhw oherwydd mae hynny'n helpu pawb ohonom.
 Disgyblaeth	Chi'n sy'n gyfrifol am eich ymddygiad, eich gwaith a'ch gweithredoedd tuag at y nodau a rennir.	"Mae'n ddrwg gen i, nid wyf yn gallu canolbwyntio ar hwn ar hyn o bryd gan fod angen i mi gwblhau ABC." "Fy nghyfrifoldeb i yw hyn ac mae'r sefydliad neu'r tîm yn dibynnu arnaf i'w gwblhau."	Rwy'n gyfarwydd â'm swydd a'm cyfrifoldeb i yw cwblhau'r gwaith. Gallaf flaenoriaethu fy ngwaith yn unol â'r sefydliad a gallaf wrthod gwaith ychwanegol os bydd fy mlaenoriaethau yn cael eu peryglu.
 Twf	Mae eich gwaith yn cael mwy o effaith nag y gallwch ei weld ar hyn o bryd, rydych yn awyddus i ddysgu a thyfu o'r profiad.	"Sut alla i wneud hyn yn well y tro nesaf?" "Ydy ein gwaith yn gorgyffwrdd, allwn ni wneud mwy gyda'n gilydd yn y dyfodol?"	Rwy'n hyderus y gallaf ganfod ffordd i wneud ychydig yn well neu i wneud ychydig mwy y tro nesaf. Rwy'n gwybod bod fy nghydweithwyr yn ceisio gwella eu gwaith yn rheolaidd.

Pwy mae WTSF yn ei helpu?



Aelod-gymdeithasau

Sicrhau arian gan Lywodraeth Cymru ac arian y Loteri a'i ddosbarthu
Bod yn eiriolwr dros saethu targedau ledled Cymru a chefnogi ceisiadau am grantiau
Dethol, rheoli a chefnogi timau Gemau'r Gymanwlad



Clybiau

Cefnogi ceisiadau am grantiau ar gyfer prosiectau chwaraeon cymunedol
Darparu cyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus o ran hyfforddi a rheoli
Darparu cymorth llywodraethu yn ogystal â'r cymorth a ddarperir gan aelod-gymdeithasau



Saethwyr Targedau

Dathlu perfformiadau, digwyddiadau a phobl yn y gamp saethu targedau yng Nghymru
Darparu gwyddor chwaraeon a chymorth ariannol i dalentau o safon Olympaidd
neu Gemau'r Gymanwlad



Y Cyhoedd

Dangos bod saethu targedau yn weithgaredd hwyliog, hygyrch a chyfeillgar sy'n
cefnogi ffordd iach o fyw
Dathlu cyfranogwyr, digwyddiadau, cystadlaethau a sefydliadau saethu
targedau ledled Cymru



Beth yw Ffederasiwn Saethu Targedau Cymru?

Wedi'i gorffori gyntaf yn 2008, mae WTSF yn adeiladu ar hanes cyfoethog o saethu targedau yng Nghymru ac mae'n gweithio'n galed i gyflawni gweledigaeth newydd ar gyfer saethu targedau yng Nghymru rhwng 2020 a 2030.

Cwmni preifat cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfranddaliadau yw WTSF (gweler Tŷ'r Cwmnïau: 06693905), ac mae gan fwrdd y cyfarwyddwyr 12 o aelodau yn cynnwys y Cadeirydd. Mae pum cyfarwyddwr craidd yn cael eu henwebu gan bob un o'r pum cymdeithas saethu targedau, mae pedwar cyfarwyddwr arall yn cael eu recriwtio'n agored a'u hethol i'w swyddi gan y cyfarwyddwyr presennol, ac mae'r naw cyfarwyddwr hyn yn ethol tri swyddog cwmni i lenwi'r swyddi sy'n weddill. Dwy flynedd yw hyd tymor pob cyfarwyddwr, a chaiff y cyfarwyddwyr craidd eu hethol i'w swyddi gan unigolion a enwebir gan y cymdeithasau yng nghyfarfodydd blynyddol WTSF.

Ar hyn o bryd mae WTSF yn cyflogi un aelod o staff llawn amser, tri aelod o staff rhan amser ac yn ymgynghori ag arbenigwyr yn ôl yr angen. Corfforwyd WTSF ar 10 Medi 2008 er mwyn cynrychioli consortiwm o chwaraeon saethu targedau yng Nghymru ac i weithredu fel pwynt cyswllt canolog ar gyfer partneriaid cyllido. WTSF sy'n arwain datblygiad chwaraeon saethu targedau yng Nghymru, a'r gwaith o ddethol a chefnogi talent saethu Cymru ar gyfer y Gemau Olympaidd a Gemau'r Gymanwlad.



Sut y bydd saethu targedau yn helpu i gyflawni'r Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru?

‘Cenedl egnïol lle mae pawb yn gallu mwynhau chwaraeon am oes.’

Cenedl egnïol

Mae saethu targedau yn helpu pobl Cymru i fod yn egnïol, a gall y cyfleoedd o ran gweithgaredd corfforol a ddarperir gan y gamp helpu rhai Cymry nad yw campau eraill yn darparu ar eu cyfer o bosibl i barhau i fod yn egnïol (e.e. pobl ag anabledd a'r rhai dros 75 oed)

Pawb


Mae amrywiaeth a chynhwysiant yn y gamp saethu targedau yng Nghymru yn cynyddu ac mae WTSP yn arwain (h.y. aelodau'r bwrdd, cystadlaethau cynhwysol) ac yn annog y gamp i groesawu pawb (e.e. ymgyrch farchnata newydd).

Gydol Oes

Mae saethu targedau yn galluogi gweithgaredd corfforol gydol oes ac yn darparu manteision ychwanegol i iechyd meddwl (h.y. ymwybyddiaeth ofalgar), ac mae'r risg o anafiadau wrth ailgychwyn ar y gamp yn debygol o fod yn is o gymharu â champau eraill (h.y. llai heriol).

Mwynhâd

Mae gan saethu targedau hanes hir iawn o greu cymunedau (h.y. clybiau, cymdeithasau) a threfnu digwyddiadau i gymryd rhan ynddyn nhw a mwynhau cystadlu. Mae sefydliadau saethu Cymru (e.e WTSP) yn cyfrannu at ddatblygu'r gamp ar lefel genedlaethol a rhyngwladol er mwyn i bawb barhau i'w mwynhau.



Sut y bydd saethu targedau yn helpu i wella llesiant Cymru?

7 nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)

Iechyd

Mae saethu targedau yn dda ar gyfer iechyd corfforol ac iechyd meddwl gydol oes, a'r cyfleoedd o ran gweithgaredd corfforol a ddarperir gan y gamp.

Llewyrchus

Buddsoddiadau DPP cynaliadwy sy'n cefnogi amcanion strategol WTSF ac yn darparu cyfleoedd hyfforddi medrus i staff gwirfoddol a chyflogedig.

Cydnherthedd

Mae saethu targedau yn cefnogi ecoleg leol, yn annog storio/dal CO₂, ac yn hybu defnydd effeithiol o adnoddau naturiol.

Cyfrifol ar lefel fyd-eang

Cymryd camau rhesymol i fwyhau canlyniadau cadarnhaol a lliniaru niwed amgylcheddol posibl o ganlyniad i saethu targedau.

Mwy cyfartal

Cefnogi'r amrywiaeth o bobl sy'n cymryd rhan mewn saethu targedau.

Cymunedau Cydlynus

Dathlu cymunedau o fewn saethu targedau a'r cysylltiadau y gellir eu creu.

Diwylliant bywiog ac iaith sy'n ffynnu

Hybu ac amddiffyn Cymreictod, yn cynnwys yr iaith Gymraeg.





FFEDERASIWN SAETHU
TARGEDAU CYMRU
WELSH TARGET
SHOOTING FEDERATION

